

Sport RCT

# Bailey, Kade, Maddie, Mali, Xander a Vimbai

## Ysgol Gynradd Gymuned Maerdy

Ers mynd i Gynhadledd y Llysgenhadon Ifainc ym mis Hydref, mae'r Llysgenhadon Ifainc ym Maerdy wedi bod yn awyddus i wella cyfleoedd yn yr ysgol, gan ganolbwyntio ar blant y Cyfnod Sylfaen, ac yn enwedig y dosbarth Derbyn. Oherwydd diffyg darpariaeth allgyrsiol ar gyfer y disgyblion yma, fe wnaeth y Llysgenhadon Ifainc gynllunio a dechrau clwb gweithgareddau amser cinio, gan annog dros 50 o ddisgyblion i fynd iddo, a gwirfoddoli am dros 160 o oriau rhyngddyn nhw.

Mae'r Llysgenhadon Ifainc wrth eu boddau'n arwain y sesiynau ac maen nhw'n edrych ymlaen at ymestyn y cyfleoedd yma i blant eraill yn yr ysgol, gyda chlwb Aml-sgiliau Cyfnod Sylfaen newydd ar ôl yr ysgol yn dechrau yn y flwyddyn newydd. Mae pawb yn yr ysgol yn hynod falch o'r Llysgenhadon ac yn edrych ymlaen at weld yr effaith y bydd eu gwaith caled yn ei chael.

"Rwy'n dwlu arni (bod yn Llysgennad Ifanc), ac mae cael gweithio gyda'r plant iau yn llawer o hwyl!"
"Rwy'n mwynhau cynllunio sesiynau hwyliog i'r plant a'u gweld yn gwella drwy'r amser."
"Fy hoff ran yw arwain y sesiynau, ond fe wnes i fwynhau ffilmio'r fideo Dragon's Den yn fawr iawn hefyd!"
"Rwy'n teimlo fy mod i'n dod yn fwy hyderus o flaen y plant, ac rwy'n mwynhau dangos iddyn nhw beth i'w wneud."

**LLYSGENNAD IFANC Y MIS - IONAWR 2026**

Chwaraeon RhCT Sport RCT · sportwales chwaraeoncymru · YOUTH SPORT TRUST · RHONDDA CYNON TAF